

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Bradley, Yr Wyddgrug.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	11
	• Ansawdd Profiad y Claf	11
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	16
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Y camau nesaf	27
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	29
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	31

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Bradley, yr Wyddgrug, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 17 Mawrth 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 28 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gallai pob claf gael mynediad cyfleus i'r safle, gan gynnwys y rhai ag amhariad symudedd a'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn, gan nad oedd grisiau yn arwain i'r cyfleusterau na'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd ardal aros y cleifion yn cael ei chynnal a'i chadw i safon uchel, ac roedd yn lân, yn daclus ac yn helaeth. Roedd cyfleusterau eistedd da ar gael ynghyd ag ardal dawel i'r rhai oedd yn dymuno ei defnyddio.

Roedd desg y dderbynfa ar ddwy lefel a oedd yn golygu y gallai'r staff sgwrsio wyneb yn wyneb â phawb a oedd yn ymweld â'r feddygfa.

Roedd y dderbynfa helaeth yn cynnwys fferyllfa gynhwysfawr, sy'n golygu y gallai'r cleifion gael eu presgripsiynau heb oedi.

Roedd yr holiaduron a gafodd eu cwblhau gan y cleifion yn gadarnhaol gyda'r mwyafrif yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Roedd adnoddau hybu iechyd, gwybodaeth am lesiant a dewisiadau byw'n iach ar gael i'r rhai oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i'r cleifion ar wefan y practis, ac ar ffurf taflenni gwybodaeth wedi'u hargraffu a oedd ar gael yn y practis i unigolion heb ddyfeisiau digidol. Dywedodd rhai cleifion eu bod wedi cael rhywfaint o anhawster cael gfael ar wybodaeth ar wefan y practis. Nid oedd hyn yn cynnwys y llwyfan trefnu apwyntiadau ar-lein.

Roedd yr amgylchedd yn amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion ac roedd y staff yn barchus wrth sgwrsio ar y ffôn ac wrth ddesg y dderbynfa. Ni allai neb arall glywed sgysiau a gwnaethom nodi nad oedd y staff yn trafod manylion a allai ddatgelu pwy oedd cleifion.

Roedd prosesau effeithiol ar waith i hwyluso mynediad amserol at ofal drwy'r sianeli a'r personél priodol, gan gynnwys porth mynediad hunangymorth digidol newydd ar gyfer apwyntiadau cleifion. Dywedodd y cleifion fod y porth hwn yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei ddefnyddio. Roedd y rhai a oedd yn cael trafferth defnyddio system e-Consult yn cael cymorth gan staff y dderbynfa a staff gweinyddol.

Roedd y cyfathrebu â'r cleifion yn glir, yn hygyrch ac wedi'i deilwra i anghenion unigol a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n amlwg gyda llawer o'r staff yn sgwrsio'n agored â'r cleifion yn Gymraeg. Yn ogystal, roedd sawl aelod o'r staff yn dysgu Cymraeg ac yn gwisgo bathodynau/laniardau priodol fel bod y cleifion yn ymwybodol o'u sgiliau.

Roedd y practis yn meithrin diwylliant o amrywiaeth a chydraddoldeb cefnogol, gan ymwreiddio'r gwerthoedd hyn yn ei bolisiau a mentrau hyfforddiant y staff.

Gwelwyd bod cleifion weithiau'n codi pryderon wrth ddesg y dderbynfa a gwnaethom drafod hyn â'r staff. Roedd y pryderon hyn yn cael eu rhannu ar lafar â'r uwch-dîm ond nid oeddent yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Symleiddio'r wefan fel y gellir chwilio drwyddi'n haws
- Galluogi staff y dderbynfa i gofnodi pryderon gan y cleifion pan fyddant yn cyrraedd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau mynediad i'r cleifion, gan gynnwys y llwyfan mynediad digidol newydd a oedd yn hwyluso apwyntiadau ar yr un diwrnod
- Roedd modd casglu presgripsiynau ar ôl ymgynghoriad i'r rhai a allai gael trafferth defnyddio gwasanaethau o'r fath.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y prosesau a oedd ar waith yn y practis yn diogelu iechyd, diogelwch a llesiant pob un a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Roedd pob ardal yn y practis yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da ac nid oedd unrhyw annibendod.

Roedd amgylchedd, polisiâu a gweithdrefnau'r practis, yr hyfforddiant i'r staff a'r trefniadau llywodraethu yn cynnal y safonau atal a rheoli heintiau gofynnol, ac yn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael ac roedd hysbysiadau ynglŷn â thechnegau golchi dwylo i'w gweld ym mhob ystafell. Gwelsom fod proses archwilio dda ar waith mewn perthynas â phob agwedd ar atal a rheoli heintiau, gan gynnwys tymheredd dŵr a thechnegau atal a rheoli heintiau perthnasol o safbwynt clinigol.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi'u diogelu rhag Hepatitis B a bod yr holl staff yn cael eu monitro'n briodol er eu diogelwch eu hunain a diogelwch y cleifion.

Roedd llenni preifatrwydd untro ar waith ynghyd â mesurau priodol i'w defnyddio a'u gwaredu'n briodol.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i ymdrin ag argyfwng aciwt yn ymwneud â chlaf. Roedd y rhain yn cyrraedd y safonau cyfarpar gofal sylfaenol a amlinellir yng nghanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol i ofalu am bobl â salwch aciwt ac ataliad y galon. Roedd y practis wedi nodi nad oedd y cyfarpar brys yn cael ei gadw mewn man addas ac nad oedd bob amser ar gael yn hwylus, felly penderfynwyd y dylid symud y cyfarpar. Roedd y broses symud yn mynd rhagddi yn ystod ein hymweliad gyda'r practis yn hysbysu'r staff i gyd ac yn newid yr arwyddion.

Roedd prosesau ar waith i gefnogi gofal diogel ac effeithiol i'r gwasanaethau gofal sylfaenol ehangach. Roedd y practis hefyd yn sicrhau bod cleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt yn cael eu cyfeirio a'u cefnogi'n briodol. Roedd

polisiau, gweithdrefnau a diwylliant y practis yn sicrhau bod pobl a'r staff yn gallu rhoi gwybod am bryderon diogelu ac ymdrin â nhw.

Roedd cofnodion y cleifion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion eu deall. Roeddent yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Symud y cyfarpar brys pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda o ran cyfarpar brys a hyfforddiant
- Nodiadau meddygol o ansawdd da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau sefydledig yn cefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol ac roedd hyn yn helpu i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel mewn ffordd gynaliadwy. Roedd y staff a'r rheolwyr yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau, eu cydberthnasau adrodd a'r angen i weithio o fewn eu maes ymarfer penodol.

Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau amrywiol. Roedd cyfarfodydd rhyngddisgyblaethol yn cael eu cynnal yn rheolaidd i annog uwch-aelodau o'r staff i gyfnewid gwybodaeth ac i sicrhau bod diweddariadau yn cael eu rhannu â'r rhai nad oeddent yn bresennol. Serch hynny, gwelwyd mai ychydig o wybodaeth a oedd yn cael ei rhannu am y trafodaethau ym mhob cyfarfod amlbroffesiynol.

Roedd gan y practis dîm cryf o staff a oedd yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ateb y galw presennol. Roedd y staff yn cael cymorth i gwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau ac roeddent yn cael eu hannog i

ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y cofnodion hyfforddiant gorfodol yn dangos bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

Roedd y staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd gonestrwydd ac roeddent wedi cael hyfforddiant priodol.

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldebau wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data personol yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Creu cofnod o gyfarfodydd clinigol fel bod y staff i gyd yn ymwybodol o bob cyfarfod perthnasol ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei seilwaith technoleg gwybodaeth
- Roedd y systemau a oedd ar waith yn hwyluso mynediad effeithlon a chyflym at gontractau'r staff, cofnodion hyfforddiant, gwybodaeth am y gweithlu a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn y cleifion am y gofal a ddarperir ym Mhractis Bradley fel rhan o'r arolygiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026. Derbyniodd AGIC gyfanswm o 11 ymateb gan gleifion yn y gwasanaeth hwn. Nid oedd rhai o'r ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn.

Yn gyffredinol, dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis a gwnaethant gadarnhau eu bod yn gallu cysylltu â'r practis pan fydd angen. Dywedodd y mwyafrif ohonynt fod modd trefnu apwyntiadau brys, apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau arferol fel arfer, ond cyfeiriodd rhai ohonynt at heriau wrth drefnu apwyntiadau. Ymhlith y rhai a oedd yn byw â chyflyrau parhaus, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y gallent gael cymorth rheolaidd pan fo angen. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod sut i gael gafeal ar wasanaethau y tu allan i oriau.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd y cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn gallu cael gafeal ar wybodaeth i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant a'u helpu i fyw'n iach.

Gwelsom amrywiaeth o wybodaeth i hybu ffordd iach o fyw, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu a bwyta'n iach. Gwnaethom nodi hefyd fod bwrdd gwybodaeth yn y ddwy ardal aros a oedd yn hyrwyddo amrywiaeth o ymgyrchoedd, gan gynnwys ymgyrchoedd mewn perthynas â'r fflw, feirws anadlol a'r eryr. Roedd rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y practis, gan gynnwys cyngor ar asthma, cam-drin domestig a chymorth iechyd meddwl.

Gwelsom fod nifer o fentrau wedi cael eu cyflwyno gan gynnwys atgyfeiriadau ffisiotherapi a chlinig podiatreg yn y practis.

Dyweddod y staff wrthym eu bod yn darparu'r gwasanaeth imiwneiddio i bob claf cymwys ac y byddent yn gwahodd y cleifion hynny drwy e-bost, llythyr neu dros y ffôn, yn dibynnu ar eu hanghenion neu'u dull cyfathrebu dewisol.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd yr amgylchedd yn cefnogi hawl y cleifion i gael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefelau priodol o breifatrwydd a gellid cloi'r drysau.

Roedd llenni preifatrwydd untro ar gael yn yr ystafelloedd archwilio hefyd. Nodwyd bod yr holl sgysiau ffôn â chleifion yn cael eu cynnal mewn ystafell wrth ymyl y dderbynfa ac nad oedd neb arall yn gallu clywed y sgysiau hynny. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gallu siarad â staff y dderbynfa yn breifat pan fo angen a bod mesurau preifatrwydd priodol ar waith yn ystod ymgynghoriadau.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd fel y bo'n briodol, ac roedd polisi hebryngwyr ar waith. Fodd bynnag, yn yr holiadur i gleifion, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi cael cynnig hebryngwr bob amser ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod arwydd yn hysbysu cleifion bod hebryngwyr ar gael yn cael ei arddangos ym mhob ystafell ymgynghori a bod hynny'n cael ei gofnodi mewn nodiadau clinigol.

Amserol

Gofal amserol

Dyweddod tua thraean o'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur eu bod wedi cael cynnig gwahanol fathau o apwyntiadau, er enghraifft, wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu rithwir. Dywedodd pob un a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn fodlon ar y math o apwyntiad a gynigiwyd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai

apwyntiad wyneb yn wyneb roeddent wedi'i gael ddiwethaf, gyda nifer bach yn dweud eu bod wedi cael apwyntiad dros y ffôn.

Roedd prosesau ar waith i helpu'r cleifion i gael gofal drwy sianel briodol mewn modd amserol, gan yr aelod mwyaf addas o'r tîm.

Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith i helpu'r cleifion i gael gafael ar wasanaethau, a gwelsom fod modelau mynediad gwahanol yn cael eu defnyddio. Roedd polisi mynediad y practis ar gael ar wefan y practis. Roedd y rhan fwyaf o apwyntiadau yn cael eu trefnu dros y ffôn. Roedd gan y staff hyfforddedig a oedd yn gweithio yn y dderbynfa restr o gyflyrau meddygol i'w helpu i gyfeirio cleifion at ddarparwyr gwasanaethau priodol eraill lle y bo'n berthnasol, er enghraifft, cyfeirio cleifion at optegydd ar gyfer problemau gyda'r llygaid a deintydd ar gyfer problemau deintyddol.

Roedd asesiad cychwynnol dros y ffôn yn cael ei drefnu ar gyfer cleifion lle aseswyd nad oedd cymaint o frys ac yna byddent naill ai'n cael eu rheoli drwy apwyntiad dros y ffôn neu apwyntiad wyneb yn wyneb, fel y bo'n briodol. Dywedodd y staff wrthym fod plant a chleifion agored i niwed bob amser yn cael eu gweld wyneb yn wyneb.

Disgrifiodd y staff y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl brys arnynt. Pan oedd claf mewn argyfwng a bod angen asesiad iechyd meddwl brys arno, dywedodd y staff wrthym y byddai'n cael ei asesu gan y meddyg ar ddyletswydd, a allai ffonio GIG 111 Cymru, opsiwn 2 (llinell gymorth iechyd meddwl), yn ôl y gofyn. Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion y mae angen cymorth brys arnynt gysylltu â'r gwasanaeth hwn eu hunain, ac y gallai pobl sy'n chwilio am gyngor ar ran rywun arall ei ddefnyddio hefyd. Dywedodd y staff wrthym y byddai plant â phroblemau iechyd meddwl yn cael atgyfeiriad brys at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a gellid hefyd gysylltu â GIG 111 Cymru, opsiwn 2.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion ac yn cyfathrebu â nhw mewn ffordd glir a hygyrch gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i'w hanghenion unigol. Roedd hyn yn helpu'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u gofal. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur bod y staff yn gwirio eu manylion personol a'u bod yn cael digon o amser yn ystod eu hapwyntiad. Dywedodd yr ymatebwyr fod y meddyg teulu yn esbonio materion yn glir, yn gwrando arnynt ac yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal.

Roedd dolen sain ar gael yn y brif dderbynfa. Gwelsom arwyddion a gwybodaeth mewn Braille.

Dywedodd y staff wrthym y byddai staff y dderbynfa yn hysbysu'r cleifion pe bai apwyntiadau'n rhedeg yn hwyr. Cafodd hyn ei gadarnhau gan yr adborth o'n harolwg cleifion ond dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod eu hapwyntiadau'n cael eu cynnal ar amser.

Dywedodd y staff wrthym fod sawl aelod o staff y practis yn siarad Cymraeg a bod sawl aelod o'r staff yn dysgu siarad Cymraeg. Pan ofynnwyd iddynt, roedd y staff yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a nodwyd bod yr arwyddion i gyd yn ddwyieithog.

Clywsom fod cyfran fach o'r staff yn siarad Cymraeg a'u bod yn defnyddio'r iaith yn eu gwaith bob dydd, ac roedd rhai ohonynt yn gwisgo'r bathodyn 'Iaith Gwaith'. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd nifer mawr o siaradwyr Cymraeg ar ddyletswydd ac roedd eu defnydd o'r Gymraeg â'r cleifion ac â'i gilydd yn nodedig.

Hawliau a chydraddoldeb

Dyweddodd yr ymatebwyr fod y safle'n hygyrch a bod digon o seddi a thoiledau priodol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y practis yn addas i blant a dywedwyd bod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos.

Roedd lleoedd parcio hygyrch ar gael yn y practis ac roedd hi'n hawdd cyrraedd y brif fynedfa. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ardal aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori, ar y llawr gwaelod. Roedd rhai clinigau yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd ymgynghori ar y llawr cyntaf ac roedd lifft neu risiau ar gael i'w cyrraedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn ac nid oedd unrhyw faterion cynnal a chadw i ymdrin â nhw. Roedd Cynllun Parhad Busnes cyfredol ar waith, a oedd yn cynnwys amlinelliad effeithiol o'r gweithdrefnau i'w dilyn i ymdrin ag argyfyngau iechyd mawr yn ogystal â rheoli absenoldebau hirdymor ymhlith y meddygon teulu.

Gwelsom fod prosesau effeithiol ar waith i dderbyn, dosbarthu a rheoli gohebiaeth a dogfennau'n ymwneud â chleifion. Roedd gwybodaeth gan wasanaethau gofal eilaidd yn cael ei chofnodi, gan gynnwys yr holl ganlyniadau profion a gwybodaeth ryddhau, ac roedd camau priodol yn cael eu cymryd.

Roedd llif gwaith clir ar waith i glinigwyr adolygu gohebiaeth a oedd yn cyrraedd y practis, ynghyd â pholisi cyfredol. Roedd y staff gweinyddol wedi cael hyfforddiant i brosesu dogfennau, a gwelsom drywydd archwilio a oedd yn dangos bod y rhain yn cael eu rheoli'n briodol.

Roedd y staff yn cyfathrebu'n fewnol gan ddefnyddio tasgau EMIS o fewn y system cofnodion cleifion electronig. Roedd camau heb eu cwblhau yn cael eu monitro gan reolwr y practis er mwyn rhoi sicrwydd. Caiff unrhyw ddogfennau papur eu sganio i mewn i system EMIS.

Pe bai plentyn yn colli apwyntiad yn y practis neu bractis gofal iechyd arall, byddai camau dilynol priodol yn cael eu cymryd. Roedd sianeli clir o gyfrifoldeb, polisi a phrotocol ar waith.

Roedd aelod dynodedig o'r staff wedi'i benodi i dderbyn a dosbarthu rhybuddion diogelwch cleifion, gyda'r uwch-dîm partneriaeth yn camu i mewn yn ystod ei absenoldeb yn ôl yr angen.

Nodwyd bod digwyddiadau o bwys, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd ar bob lefel yn y sefydliad. Roedd dealltwriaeth glir y byddai digwyddiadau o'r fath yn cael eu harchwilio er mwyn nodi unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud. Darparwyd dogfennau a oedd yn dangos materion a gafodd eu trafod a'u huwchgyfeirio a gwersi a ddysgwyd yn sgil y cyfarfodydd hyn.

Roedd y cyfarpar brys i'w ddefnyddio pe bai digwyddiad cardiaidd difrifol yn cael ei gadw yn un o'r ystafelloedd clinigol. Er bod y cyfarpar yn gynhwysfawr ac yn cael ei wirio'n rheolaidd, roedd ei leoliad yn golygu na fyddai modd cael gafael arno'n hwylus bob amser. Roedd hyn wedi cael ei nodi eisoes gan yr uwch-dîm ac roedd proses ar waith i symud y cyfarpar ar ôl i'r holl staff gael eu hysbysu. Roedd asesiad risg wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r broses hon hefyd.

Rhaid i'r practis symud y troli cyfarpar brys er mwyn gallu ymateb yn well mewn argyfwng.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Dywedodd yr ymatebwyr i'n holiadur eu bod wedi gweld gwybodaeth yn cael ei harddangos am gyflyrau heintus a gwnaethant ddweud bod hylif diheintio dwylo ar gael yn y practis. Dywedodd yr ymatebwyr fod y staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl rhoi gofal neu driniaeth fel arfer. Dywedodd yr ychydig ymatebwyr a oedd wedi cael triniaethau mewnwthiol fod y staff wedi defnyddio menig a chyfarpar wedi'i ddiheintio a'u bod wedi glanhau'r croen cyn y driniaeth.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith a oedd yn cael ei adolygu bob blwyddyn a Nyrs Arweiniol y Practis oedd yr Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi darllen y polisi a'i ddiweddariadau fel y bo'n briodol.

Roedd pob ardal yn y practis yn ymddangos yn lân ac roedd cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau plastig untro, ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.

Roedd hylif diheintio dwylo ar gael o amgylch y practis, ac roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol ac yn y toiledau. Gwelsom dystiolaeth bod tymheredd dŵr yn cael ei fonitro a'i fod yn gyson, felly hefyd yr amserlenni glanhau ar gyfer yr adeilad.

Roedd atal a rheoli heintiau yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant, ar lefel sy'n briodol i'w rôl.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn ogystal â dogfennau i ddangos bod cysylltiad rhagorol rhwng presgripsiynu meddyginiaethau a meddyginiaethau rheolaidd â'r diagnosis.

Gwnaethom edrych ar y Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis a gwelsom fod pob un ohonynt yn gyfredol ac wedi cael eu llofnodi a'u hawdurdodi'n briodol.

Gwelsom fod meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael ei storio mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno. Roedd tymheredd yr oergell storio meddyginiaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn electronig ac roedd cofnodion yn cael eu cadw fel sy'n ofynnol. Fel arall, roedd y practis yn storio meddyginiaethau a chyfarpar cysylltiedig yn ddiogel.

Roedd silindrau ocsigen cludadwy ar gael yn y practis. Roeddent yn barod i'w defnyddio ac yn cael eu storio'n briodol mewn dyfais dal silindrau. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael ei addysgu sut i ddarparu a rhoi therapi ocsigen yn ddiogel drwy hyfforddiant ar-lein gan y British Oxygen Company (BOC) yn unol â pholisi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd meddyg teulu wedi'i benodi yn arweinydd diogelu ar gyfer y practis a gwelsom ei fod yn ymgysylltu'n rheolaidd ag asiantaethau amlbroffesiynol allanol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl. Roedd yn hawdd nodi plant ac aelodau teulu a oedd yn destun pryderon diogelu ar y system cofnodion electronig.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod diogelwch dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd.

Cadarnhawyd bod cyfarpar meddygol clinigol untro tafladwy yn cael ei ddefnyddio lle y bo'n briodol. Roedd yr holl eitemau cyfarpar meddygol wedi cael eu gwirio a'u calibradu o fewn y flwyddyn ddiwethaf a chânt eu gwirio'n flynyddol. Gwelsom fod system ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw gyfarpar diffygiol a byddai pob darn o gyfarpar yn cael ei wasanaethu'n gyflym.

Gwelsom fod monitor dirlawnder ocsigen (SaO₂) ar goll o'r troli adfywio a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell ymgynghori lle roedd dyfeisiau monitro eraill ar gael. Trafodwyd hyn ag aelodau o'r uwch-dîm ar y pryd a daethpwyd i gytundeb ynghylch lleoliad parhaol y 3 monitor SaO₂ sydd ar gael. **Rhodddwyd hyn ar waith yn ystod ein harolygiad o dan Atodiad A.**

Effeithiol

Gofal effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol. Gwelwyd bod y manylion a nodir yng nghofnodion y cleifion a'r camau dilynol a gymerir o safon dda iawn. Gwelsom dystiolaeth bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y practis yn cael ei weithredu. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom hefyd fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant cynhwysfawr ar reoli ac adnabod sepsis yn ddiweddar. Roedd posterï'n cael eu paratoi ar gyfer y cyhoedd yn esbonio arwyddion sepsis a byddai'r rhain yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd aros a'r ystafelloedd ymgynghori.

Cofnodion cleifion

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith a dangosodd y staff eu bod yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion deg claf a gwelsom fod system rheoli cofnodion effeithiol ar waith, gyda threfniadau diogelwch priodol i atal mynediad heb awdurdod. Cadarnhaodd hyn hefyd fod y clinigwyr bob amser yn dogfennu achosion lle mae cleifion yn rhoi cydsyniad ar lafar i archwiliadau neu driniaethau.

Roedd cofnodion y cleifion yn gyfoes, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn cynnwys naratif clir ar symptomau'r cleifion ac asesiad clinigol, y rhesymau dros benderfyniadau, ac unrhyw gyngor a roddwyd. Gwelsom ddogfennau priodol a oedd yn nodi camau a gymerwyd, gan gynnwys ymchwiliadau y gwnaed cais amdanynt, atgyfeiriadau a wnaed, meddyginiaethau a roddwyd ar

bresgripsiwn ac unrhyw fesurau diogelwch gofynnol, ynghyd â thystiolaeth bod trefniadau dilynol yn cael eu cofnodi lle bo hynny'n berthnasol. Os oedd angen cydsyniad y claf, roedd hyn yn cael ei ddogfennu'n gyson yn y cofnod clinigol, gan roi sicrwydd bod cydsyniad wedi cael ei roi a'i gofnodi yn unol â'r arfer disgwylidig. Roedd lefel manylder y cofnodion o safon uchel ac yn cefnogi parhad gofal drwy alluogi clinigwyr eraill i ddeall yn hawdd hanes y claf a sut roedd ei gyflwr yn cael ei reoli.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd trefniadau ar waith i helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom nodi arfer da ym maes rheoli cyflyrau aciwt a hirdymor, gyda naratif clir a thystiolaeth o benderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Disgrifiodd y staff drefniadau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau o bwys a dysgu ohonynt fel sefydliad.

Cadarnhaodd y staff clinigol fod prosesau cadarn ar waith i dderbyn a rhannu ymarfer newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â chanllawiau NICE newydd neu ddiwygiedig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn y staff am y gofal ym Mhractis Bradley ar gyfer yr arolygiad ym mis Mawrth 2026. Cafwyd cyfanswm o 28 o ymatebion gan staff yn y lleoliad hwn. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n teimlo bod morâl a'r ffordd y mae'r practis yn cael ei redeg wedi gwella'n aruthrol dros y 12 mis diwethaf. Rwy'n teimlo'n falch o fod yn rhan o dîm mor ddiwyd ac ymroddedig”.

“Lle hyfryd i weithio ac maen nhw'n poeni am y staff a'r cleifion.”

“Dyma fy swydd gyntaf mewn practis cyffredinol ac yn y GIG ac roedd llawer iawn i'w ddysgu ond gallaf ddweud yn ddiffuant mai dyma'r swydd orau rydw i wedi ei chael erioed o bell ffordd.”

“Rwy'n falch iawn i rannu fy mhrofiad cadarnhaol o weithio yn y practis. Mae'r tîm yn gefnogol, yn broffesiynol, ac yn wirioneddol ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel, sy'n creu amgylchedd gwerth chweil i weithio ynddo. O safbwynt rheoli, mae ymdeimlad clir o gyfeiriad, cyfathrebu cryf, a diwylliant sy'n rhoi pwys ar ddatblygu staff a chanlyniadau cleifion. Ar y cyfan, mae'n lle da i weithio ac rwy'n teimlo'n hyderus yn nyfodol y busnes.”

Yn yr un modd, cafwyd rhai sylwadau a oedd yn nodi bod lle i wella trefniadau cyfathrebu o fewn y tîm.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei gynnwys mewn gohebiaeth yn y dyfodol.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd proses glir ar waith yn y practis ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, fel newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir a byddai pob aelod o'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau drwy gyfarfodydd tîm arbennig. Roedd cyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, gyda rheolaethau. Roedd pob polisi yn gyfredol ac roedd pob polisi wedi cael ei ddarllen gan yr aelodau o staff yr oedd yn berthnasol iddynt.

Cadarnhaodd y rheolwyr fod polisi drws agored ar waith i'r staff rannu pryderon a syniadau ar gyfer y practis.

Gwelsom fod cyfarfodydd clinigol, megis y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol, yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Fodd bynnag, oherwydd maint y gweithlu, nid oedd pob aelod perthnasol o'r staff yn bresennol yng nghyfarfodydd tîm disgyblaethau penodol. Wrth ddarllen adborth y staff, cawsom ar ddeall y gall hyn weithiau fod yn broblem i staff rhan amser a oedd yn teimlo eu bod yn colli gwybodaeth hanfodol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith a'u bod yn gallu awgrymu gwelliannau.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau ac roedd pob un ohonynt wedi cael arfarniad neu adolygiad datblygu o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar gael i aelodau newydd o staff.

Roedd polisïau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith, a disgrifiodd rheolwr y practis wiriadau cyn cyflogi addas ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n briodol i'w rôl.

Roedd yn amlwg bod y rheolwyr yn goruchwyllo cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn effeithiol er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau i ddangos cymhwysedd i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn briodol. Gwelsom system glodwiw a oedd yn cynnwys matrices hyfforddiant a fyddai'n nodi cydymffurfiaeth dda a gwael â hyfforddiant gorfodol ymhlith pob grŵp staff. Roedd y system hon hefyd yn rhoi rhybudd fis yn union cyn bod angen i unigolyn adnewyddu ei hyfforddiant ar bwnc penodol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt ddigon o adnoddau ar y cyfan, gan gynnwys cyfarpar a systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Yn gyffredinol, disgrifiodd y staff gydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith ac ymwybyddiaeth o gymorth iechyd galwedigaethol, ond cyfeiriwyd at straen a phwysau gwaith hefyd.

Gwelsom fod y staff i gyd yn cael budd o ap llesiant a theimlwyd bod hyn yn arfer da ac yn gymorth clodwiw i'r gweithlu.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom dystiolaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros a oedd yn dangos sut y gallai'r cleifion roi adborth. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn i ddysgu ac i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Roedd gan y practis bolisi cwynion i gleifion; roedd y polisi hwn yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd y polisi cwynion yn cyfleu hyn yn glir.

Gwnaethom siarad â'r staff am y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi ar waith ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, ac roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn ac roeddent yn wybodus am y pwnc pan wnaethom siarad â nhw amdano.

Roedd y staff yn teimlo bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu cyfrinachedd, preifatrwydd ac urddas cleifion, a bod hebryngwyr yn cael eu cynnig lle bo angen. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu a'u bod yn teimlo bod y practis yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn, a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn.

Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael i'w hadolygu ac ar y wefan.

Wrth edrych ar y cofnodion hyfforddiant, gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym fod dysgu'n cael ei rannu ym mhob rhan o'r practis drwy gyfarfodydd staff grŵp er mwyn gwneud gwelliannau. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau clinigol rheolaidd o sawl pwnc a oedd yn cael eu cynnal gan fwy nag un aelod o'r staff. Gwelsom drefniadau i rannu data o nifer o edefion clinigol, data ar imiwneiddio a rheoli heintiau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Monitor dirlawnder ocsigen pediatrig (SaO2) ar goll	Methu â chynnal asesiad cywir	Roedd y staff yn gwybod bod y monitor dirlawnder yn cael ei rannu gan y staff, ond roedd mwy nag un monitor SaO2 ar gael.	Cafodd y dyfeisiau monitro eu symud i leoliadau penodol a chafodd y staff eu hysbysu ar unwaith am eu lleoliad newydd. Mae un ar y troli brys, un yn yr ystafell sy'n cael ei defnyddio bob amser gan y meddyg teulu pediatrig, ac un yn yr ystafell drin glinigol.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Bradley, Yr Wyddgrug

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Bradley, Yr Wyddgrug

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>1. Roedd y troli brys yn cael ei gadw mewn ystafell drin a oedd yn aml yn cael ei defnyddio.</p> <p>Mae angen cadw'r troli mewn man lle gellir cael gafael arno bob amser. Mae angen hysbysu'r staff am y cynllun i symud y troli mewn modd diogel ac amserol.</p>	<p>Rhaid i'r practis symud y troli cyfarpar brys er mwyn gallu ymateb yn well mewn argyfwng.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) Diogel; Amserol; Gwybodaeth.</p>	<p>Mae'r practis bellach wedi dod o hyd i fan diogel ac addas ar gyfer y troli brys.</p>	<p>Catrin Williams</p>	<p>Mae hyn wedi'i gwblhau</p>

2.	Gwelsom fod hyfforddiant ar bresgripsiynu anfeddygol yn anghyson.	Nodwyd bod amserlen hyfforddi a gwelliannau yn rhan o gynllun	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) Diogel; Y Gweithlu: Gwybodaeth.	Mae pob un o'n presgripsiynwyr anfeddygol wedi cael hyfforddiant digonol ac mae gwiriadau llywodraethu a gwiriadau hyfforddiant wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae'r practis yn derbyn bod angen monitro eu hymarfer mewn ffordd fwy strwythuredig ac mae hyn wedi cael ei roi ar waith.	Tomos Williams	Mae archwiliadau bob 6 mis o'u harferion presgripsiynu wedi cael eu cyflwyno.
----	---	---	---	---	----------------	---

3.	Nid oedd system ar waith i'r staff gofnodi pryderon gan y cleifion wrth iddynt gyrraedd desg y dderbynfa flaen.	Trafodwyd cyflwyno cofnodlyfr pryderon.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) Effeithiol; Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn; Diogel.	Er nad oes cofnodlyfr ar ddesg y dderbynfa flaen, mae gennym weithdrefn gwyno, ac mae'r Uwch-reolwyr yn cadw cofnod o gwynion. Bellach, gall ein staff ddefnyddio botwm swyddogaeth i gofnodi'r ymholiad yn uniongyrchol yn nodiadau'r claf a gall y staff glustnodi'r cam gweithredu hwn i'r aelod perthnasol o'r staff drwy Emis neu e-bost. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn canllawiau "Gwranddo ar Bobl" y bwrdd iechyd sydd wedi disodli "Gweithio i Wella" yn ddiweddar	Clare Gill	Mae hyn wedi cael ei roi ar waith ac mae'n gweithio'n effeithiol. Mae hyn yn osgoi'r risg y caiff cofnodlyfr ffisegol ei golli gyda gwybodaeth y gellir adnabod cleifion ohoni a phryderon.
----	---	---	---	---	------------	---

4.	Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd fel y bo'n briodol, ac roedd polisi hebryngwyr ar waith. Yn yr holiadur cleifion, dywedodd rhai cleifion wrthym nad oeddent wedi cael cynnig hebryngwr bob amser gyfer archwiliadau neu driniaethau personol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod arwydd yn hysbysu cleifion bod hebryngwyr ar gael yn cael ei arddangos ym mhob ystafell ymgynghori a bod hynny'n cael ei gofnodi mewn nodiadau clinigol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) Gofal ag Urddas.	Dylai cleifion bob amser gael cynnig hebryngwr pan fo hynny'n briodol. Mae hyn wedi cael ei rannu eto â'r staff clinigol.	Clare Gill / Tomos Williams	Caiff hyn ei godi eto yn y cyfarfod clinigol nesaf ac mae wedi cael ei nodi mewn e-bost i bob clinigydd.
5.	Cafwyd rhai sylwadau yn yr holiadur staff am gyfathrebu gwael.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei gynnwys mewn gohebiaeth yn y dyfodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) Cyfathrebu ac Iaith.	Yn ogystal â'r cylchlythyr wythnosol presennol i dîm y dderbynfa, bydd ein sianeli Teams a'n negeseuon e-bost/rhybuddion dyddiol yn rhoi gwybodaeth chwarterol i'r staff am gyfarfodydd staff.	Clare Gill	Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i gynllunio ac mae gwahoddiadau wedi cael eu hanfon.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Clare Gill

Swydd: Rheolwr Gweithrediadau

Dyddiad:01.05.2026